# PWYLLGOR SAFONAU 9 CHWEFROR, 2010

**YN BRESENNOL: AELOD ETHOLEDIG:** Y Cynghorwyr: Keith Greenly-Jones, Stephen Churchman.

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans, Mr Malcolm Jones, Mr Sam Soysa a Mr Gwyn Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Harry Thomas, (Prif Weithredwr), Dilys Phillips, (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Margaret Griffith, (Aelod Etholedig), Mr David Clay, (Aelod Pwyllgor Cymunedol)

**CROESO:** Estynnwyd croeso arbennig i'r Prif Weithredwr i'r cyfarfod a chyflwynwyd aelodau'r Pwyllgor iddo'n unigol.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2009, fel rhai cywir.

## 3. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn amlinellu rhaglen waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y swyddog y byddai'r Rhaglen Waith yn rhan o'r ymdrechion i godi proffil y Pwyllgor Safonau a bod hyn yn deillio o Gynhadledd Safonau Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 15 Hydref 2009.

'Roedd y rhaglen waith a gyflwynwyd yn cyfeirio at gyfarfodydd i'w cynnal ar 5 Gorffennaf, 2010, 11 Hydref, 2010, 17 Ionawr, 2011 a 4 Ebrill, 2011. Nodwyd materion i'w hystyried yn y gwahanol gyfarfodydd, ond pwysleisiodd y swyddog mai syniadau yn unig oedd y rhain a bod y cyfan yn hyblyg.

Cyfeiriodd y swyddog yn arbennig at y posibilrwydd o gyfarfod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol y Cyngor yn y cyfarfod ar 5 Gorffennaf, 2010, a chredai y byddai hyn o gryn werth.

'Roedd awgrym at y posibilrwydd o gyflwyno adroddiad blynyddol yn y cyfarfod ar 11 Hydref, 2010, ac yr oedd y swyddog o'r farn y gellid cyflwyno'r adroddiad i'r wasg. Ar gyfer 4 Ebrill, 2011 'roedd cyfeiriad at Adroddiad

‘hanner tymor’ fyddai’n cymryd trosolwg ar faterion safonau ymddygiad a llywodraethu. Awgrymodd y swyddog y byddai’n bosib cyflwyno adroddiad o’r fath yn chwarterol.

Croesawyd y syniad gan aelodau a oedd yn credu y byddai’r rhaglen waith yn gam pendant ymlaen. Gwerthfawrogwyd yr hyblygrwydd a nodwyd yr angen i ddefnyddio’r rhaglen waith fel modd i gryfhau’r cysylltiad rhwng y Pwyllgor safonau a Chyngor Gwynedd.

Croesawyd y syniad o drefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau’r Pwyllgor Safonau yn ogystal â’r bwriad i gymeradwyo ffurf hyfforddiant i weddill y Cyngor.

Awgrymwyd gan aelod y gellid ystyried y posibilrwydd o gael anerchiad gan yr Ombwdsmon ac y gellid uno gyda chynghorau Môn a Chonwy ar gyfer hyn os yn bosib.

Croesawyd y syniad o gael cyfarfod hefo Arweinyddion y Grwpiau Gwleiydyddol a nodyd y gellid defnyddio’r cyfarfod i drafod sut y gellid lleisio gwahaniaeth barn gwleidyddol ond gan barhau i gadw safonau ymddygiad, ac hefyd beth yw rôl arweinyddion mewn hybu a chynnal safonau.

Croesawyd y bwriad i sefydlu Rhaglen Waith gan y Prif Weithredwr a gyfeiriodd at bwysigrwydd dyletswyddau’r Pwyllgor Safonau. Tanlinellwyd hyn ymhellach ganddo gan nodi fod disgwyliadau arbennig parthed ymddygiad o fewn Cyngor o faint Gwynedd sydd gyda throsiad blynyddol o £400miliwn.

Ychwanegodd fod Gwynedd yn eithaf anghyffredin gan fod pum plaid wleidyddol wedi eu cynrychioli o fewn y Cyngor a bod angen addasu ar gyfer hyn. Ac wrth groesawu’r Rhaglen Waith galwodd am gydweithrediad y Pwyllgor Safonau er budd Gwynedd ac yr oedd am iddynt leisio barn yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r rhaglen waith pendant ar gyfer y flwyddyn i ddod gyda chyfarfod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cael ei gynnwys ar raglen y cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2010.**

## 4. PROTOCOL LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ac atgoffwyd yr aelodau o’r Protocol Aelod-Swyddog sydd eisoes wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

Ynghlwm â’r Protocol hwn ‘roedd trefn leol i ddatrys anghydfod lle nad oedd y tramgwydd yn cael ei ystyried yn ddigon difrifol i’w gyfeirio at sylw’r Ombwdsmon.

Ychwanegodd y Swyddog fod trafodaethau wedi eu cynnal gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a chredir fod yna gefnogaeth i ddatblygu math o ‘safon Gwynedd’ ar gyfer datrys cwynion o gamymddwyn gan aelod yn erbyn aelod.

Ymhelaethodd y Swyddog y byddai modd nodi'n glir beth ydy'r disgwyliadau ymddygiad ar aelodau Cyngor Gwynedd sydd, o bosib, yn mynd ymhellach na'r hyn y byddai'r Ombwdsmon yn fodlon i ymchwilio iddynt dan y Cod Ymddygiad.

Nodwyd y byddai cwynion parthed safon yn cael ei dorri yn dod gerbron y Pwyllgor Safonau. Yn ogystal, credir y gallasai sefydlu trefniant lleol o'r fath fod yn fodd i esbonio pwerau'r Pwyllgor Safonau.

Ychwanegodd y swyddog fod y mwyafrif helaeth o'r safonau o fewn Cyngor Gwynedd yn fwy na derbyniol ond fod rhai cwynion yn bodoli ac mai'r bwriad oedd anelu'n gyson at welliant. Esboniodd mai'r drefn fyddai trafod a mabwysiadu drafft cyn i'r Cyngor llawn ystyried argymhelliad.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y swyddog nad oedd modd atal aelod o'r Cyngor rhag cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon ond y byddai trefn fel 'Safon Gwynedd' yn creu cyfle i gamau gael eu cymryd o fewn y Cyngor.

O safbwynt lefel cosb a allai'r Pwyllgor Safonau ei roi, esboniwyd mai cerydd fyddai fwyaf tebygol, ond awgrymwyd gan aelodau y gellid ystyried gwahardd cynghorydd am gyfnod.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y trwch o'r aelodau'n derbyn yr angen i ddilyn safonau disgwyliedig. Er hyn dywedodd fod cwynion yn bodoli a bod angen ymateb. Credai felly y byddai protocol lleol yn ddefnyddiol.

Mewn ymateb i ymholiad, ychwanegodd y Prif Weithredwr fod llai o gwynion wedi eu derbyn ers i'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog gael ei fabwysiadu a'i fod yn sicr wedi cael effaith.

'Roedd y mwyafrif o'r aelodau'n credu y byddai Protocol Lleol i ymdrin ag achosion o gamymddwyn gan aelod yn erbyn aelod yn fuddiol. Ond mynegwyd peth pryder gan un o'r aelodau etholedig parthed y posibilrwydd o raniadau'n cael eu creu rhwng cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a'r rhai fyddai'n wynebu cwyn. Fodd bynnag, 'roedd yn gefnogol i'r egwyddor o sefydlu protocol lleol.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r egwyddor o ddatblygu trefniant lleol a bod drafft o'r Protocol yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 5. CANLLAWIAU DRAFFT AR Y COD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi fod canllawiau drafft ar gyfer Cod Ymddygiad wedi ei gyhoeddi gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd, 2009. Gyda'r canllawiau'n destun ymgynghoriad, 'roedd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau i'w trafod a chytuno ar ymateb i'w anfon at yr Ombwdsmon ar ran y Cyngor.

Ychwanegodd y swyddog ei bod wedi ystyried y canllawiau drafft gyda swyddogion monitro eraill a'r Ombwdsmon, ac yr oedd yn gobeithio y caiff

cyfarfod pellach ei gynnal a bod disgwyl i'r canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi tua diwedd mis Mawrth.

'Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r canllawiau drafft a chyflwynwyd sylwadau gan y Swyddog Monitro er ystyriaeth.

O safbwynt y cyflwyniad, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid rhoi pwyslais ar hyfforddiant parthed y Cod Ymddygiad a sicrhau fod rôl y Pwyllgor Safonau'n gwbl glir. Ychwanegodd y dylid tynnu sylw at y pwysigrwydd o fod yn dallt a chadw at y Cod.

'Roedd y swyddog o'r farn fod y paragraff yn ymdrin â 'Thrin Pobl Eraill a Pharch' yn un o'r rhai sy'n denu'r mwyaf o sylw ac yr oedd am i'r canllawiau ar hwn fod yn hollol glir a diamwys. Ategwyd hyn gan aelodau, a nodwyd y dylid sylweddoli bod gwahaniaeth yn bodoli rhwng beirniadu polisïau a gwneud sylwadau personol.

Ymhelaethodd y Swyddog Monitro ac awgrymwyd sylwadau ar rai materion gan gynnwys:

- Bwlio a brawychu
- Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Rhwystro mynediad at wybodaeth
- Anfri
- Rhoi gwybod am dorri'r cod
- Buddiant personol
- Pwy yw aelod o'ch teulu neu'n rhywun y mae gennych gysylltiad agos ag ef/hi
- Beth yw busnes sy'n rhagfarnu
- Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu
- Rhoddion a lletygarwch.

**PENDERFYNWYD cefnogi sylwadau'r Swyddog Monitro ac anfon yr ymateb at yr Ombwdsmon ar ran y Cyngor.**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD

Cyflwynodd y Swyddog Priodoldeb wybodaeth am gais a wnaed gan y Cynghorydd John Pughe Roberts, (aelod Corris / Mawddwy) am ollyngiad mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion cynradd yn nhalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.

Ychwanegodd y swyddog fod y cais yn cael ei chyflwyno oherwydd bod merch y cynghorydd yn ddisgybl yn un o ysgolion cynradd y dalgylch, sef Ysgol Bro Tegid, Y Bala. Esboniodd ymhellach nad oedd y cynghorydd yn aelod o'r Panel Dalgylch a'i fod yn gwneud cais i gael siarad yn unig pan drafodir y mater mewn cyfarfod y Cyngor.

Cyfeiriodd aelodau at reoliadau a osodwyd ac yr oeddynt o’r farn fod cysylltiad  cynghorydd â’r mater penodol yn rhy agos ac na ellid caniatáu gollyngiad.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais y Cynghorydd John Pughe Roberts am ollyngiad ar sail bod y cysylltiad rhyngddo ag ysgol benodol yn nalgylch Ysgol Y Berwyn, Y Bala, yn rhy agos.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3:40pm

**CADEIRYDD**